

Ar wahân i'w thegan **Miss Mogs** y **pengwin pert**, hoff beth **Magi** yn y byd i gyd oedd cyfri.

Cyfri sawl **moron** oedd ar ei phlât.

Cyfri sawl **pawen** oedd ar ei chwingen o'r enw Gruff.

Cyfri sawl **cwmwl** oedd yn yr awyr las.

Cyfri sawl **blodyn** oedd yn ei gardd.

Cyfri sawl **llyfr** oedd ganddi ar ei silff lyfrau.

Ac yn fwy na dim, cyfri sawl **dant** roedd **Magi** wedi'i cholli.

**Magi** oedd y gorau yn cyfri yn yr ysgol hefyd. Doedd neb yn gallu ei churo! Ac un diwrnod, ar y ffordd i'r ysgol, roedd **Magi** a'i mam yn cerdded heibio'r pentref pan, yn sydyn, glywodd y ddwy sŵn aflafar.

**Clop, Clop, Ww-Aa-Aa, Ww-Aa-Aa, Sssss, Sssss, Trot, Trot.**

Yn nesáu at **Magi** a'i mam oedd anifeiliaid o bob lliw a llun.



**Clop, Clop, Ww-Aa-Aa, Ww-Aa-Aa, Sssss, Sssss, Trot, Trot.**

Roedd anifeiliaid y sw wedi dianc ac roeddent yn rhedeg yn wyllt trwy strydoedd y pentref. Ond yn waeth na hynny, roedd yr anifeiliaid yn anelu am yr ysgol!

**Clop, Clop, Ww-Aa-Aa, Ww-Aa-Aa, Sssss, Sssss, Trot, Trot.**

Dechreuodd **Magi** gyfri'r anifeiliaid. Ynghanol yr holl halibalw roedd:

**10 panda,**



9 rhinoseros,

8 llew,

7 crwban,

6 mwnci,

5 fflamingo,

4 pengwin,

3 jiráff,

2 eliffant,

ac 1 neidr.



Yn rhedeg ar ôl yr anifeiliaid, yn creu mwy o lanast, oedd tri **cheidwad** o'r sw lleol.

Chwarddodd **Magi** a'i mam nerth eu boliau ar y tri **cheidwad** yn trio eu gorau glas i hel yr holl anifeiliaid at ei gilydd.

Chwarddodd y ddwy hyd yn oed yn fwy pan welon nhw un **ceidwad** yn cwmpo ar ei ben-ôl wrth drio dal **eliffant**.



Roedd bol **Magi** a'i mam yn brifo o'r holl chwerthin, yn enwedig ar ôl iddynt weld **ceidwad** arall yn rhedeg i mewn i giât wrth drio dal **mwnci**.

Doedd dim gobaith gyda'r **ceidwaid** i ddal yr holl anifeiliaid.

O fewn dim, roedd gan **Magi** syniad i achub y dydd.

**Magi** oedd yr unig un a oedd yn cofio sawl anifail oedd wedi dianc, felly dim ond hi oedd yn gwybod sawl person a oedd eu hangen i'w dal.

**Deg** person i ddal y deg **panda**.

**Naw** person i ddal y naw **rhinoseros**.

**Wyth** person i ddal yr wyth **llew**.

**Saith** person i ddal y saith **crwban**.

**Chwe** pherson i ddal y chwe **mwnci**,

**Pum** person i ddal y pum **fflamingo**.

**Pedwar** person i ddal y pedwar **pengwin**.

**Tri** pherson i ddal y tri **jiráff**.

**Dau** berson i ddal y ddau **eliffant**.

Ac **un** person i ddal y **neidr**.

Roedd pawb wedi synnu bod **Magi** wedi gallu **cyfri'r** holl anifeiliaid.

"Cyfri bob anifail? Sut yn y byd?!" holodd un o'r dorf.

Ond yn fwy na dim, roedd pawb wedi synnu bod **Magi** wedi gallu **cofio'r** holl rifau.

"Cofio bob anifail? Sut yn y byd?!" holodd un arall o'r dorf.

Er y cwestiynau, roedd pawb yn gwrando'n astud ar **Magi** ac yn barod i'w helpu.

Felly, un wrth un, aeth pawb yn araf deg at yr anifeiliaid i'w dal.

**Clop, Clop, Ww-Aa-Aa, Ww-Aa-Aa, Sssss, Sssss, Trot, Trot.**



Trwy ddyfalbarhau, roedd pawb wedi dal eu hanifail ac yn rhoi cwtsh mawr iddynt, gan gynnwys un o ffrindiau **Magi** a oedd wedi dal y neidr hir a throellog.

Ond yn fwy na dim, roedd **Magi** wedi llwyddo i ddal un o'r **pengwiniaid** bach. Roedd **Magi** methu credu'i llygaid, roedd hi'n rhoi cwtsh i **bengwin** go-iawn!

Byddai **Miss Mogs** y tegan **pengwin**, a oedd yn cysgu'n braf yng ngwely **Magi**, wrth ei bodd yn cwrdd â **phengwin** go iawn!

Roedd **Magi** am gofio'r eiliad hon am weddill ei hoes. Ond, am nawr, roedd hi'n amser roi'r **pengwin** yn ôl yn ei gartref.

Gyda'i gilydd, cerddodd pawb yn ôl at y sw gan roi'r anifeiliaid yn ôl yn eu cartrefi heb yr un ffws na ffwdan.

Fel diolch, rhoddodd y sw  
degan **pengwin** i **Magi** a'r  
croeso iddi alw heibio'r sw  
unrhyw bryd i weld y  
**pengwiniaid**.

Nawr, roedd gan **Magi** tri  
hoff beth yn y byd i gyd.

**Miss Mogs** y **pengwin**,  
**Mr Mogs** y **pengwin** arall,  
a chyfri.



Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans